

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 4ydd o EBRILL 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair),Alan Lewis,Geoff Hewitt,Ian Evans, Tyssul Evans,Heddwyn Jones a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Linda Williams,Margaret Rees,Carrie Rees,Wendy Evans,Meic Bowen,Ellis Jenkins,Aled Williams a Richard Thomas

Materion Personol

1395 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1396 Cofnodion Cyfarfod Cynllunio Arbennig – 04/04/16.

Wedi trafodaeth drwyadl penderfynwyd derbyn argymhelliad yr Is-bwyllgor uchod ein bod yn gwrthwynebu Cais Cynllunio Rhif W/33489 - Newid Defnydd - Ffarm Cwm Eynon,Pedair Heol ar yr amodau a nodir isod:-

- a) Traffig swnllyd
- b) Loriau mawr pob dydd
- c) Oriau gwaith annerbyniol
- d) Yr Heol newydd ddim o safon uchel
- e) Problemau amgylcheddol.

1397 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 07/03/2016 fel rhai cywir.

1398 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1370 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Gan fod y sefyllfa wedi gwaethygu penderfynwyd ein bod yn trefnu Cyfarfod safle gyda'r Cyngor Sir a'r Heddlu i drafod y mater ymhellach

Tud 3. Cofnod Rhif 1370 - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe - Bydd y Cyngor Sir yn gosod yr arwyddion yn fuan.

Tud 3. Cofnod Rhif 1370 - Cyflwr Cysodfannau yng Nghymuned Trimsaran - Aros am ymateb oddiwrth Cyngor Cymuned Trimsaran.

Tud 3 . Cofnod 1393 – Torri'r clawdd wrth ffin Parc Carwe – Y Cyngor Sir fydd yn gwneud y gwaith cyn bo hir.

Tud 3. Cofnod 1393 – Cyflymder traffig o flaen Ysgol Carwe – y Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater.

Tud 3. Cofnod 1394 – Lamp wrth Waunygwiel Fach,Pedair Heol – y gwaith yn nwylo – Western Power'.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1399 Macmillan Cancer Support -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1400 Seindorf Arian Crwbin - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1401 Age Cymru Sir Gar– Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1402 Gofal Mewn Galar- Llythyr yn diolch am y rhodd.

1403 Teenage Cancer Trust – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1404 Urdd Gobaith Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1405 Radio Glangwili – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1406 Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Tocynnau Rali 2016- Nodwyd y llythyr.

1407 Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Cynllun Strategol 2016-2021 a Chynllun Gwella Blynnyddol 2016-17 - Nodwyd y llythyr.

1408 Gareth Jones, Y Magna, Pontiets - Llythyr yn diolch am gyfraniad tuag at lanhau Cysgodfa Bysiau Heol Bancyroffis.

Ceisiadau Cynllunio

1409

Ceisiadau Cynllunio:

- Cyngor Sir Gar - Tu ôl i 12-16, Brynseilo Carwe - Datblygiad Tai Preswyl - Gwrthwynebiad ar sail colli tir chwarae.
- Mr Trevor Cook - Blaen Bryn, Pedair Heol- Estyniad a Throsiad - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr Dorrian Harris – Gellyglyd, Pontantwn – Stablau Newydd– Dim Gwrthwynebiad

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1410 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mawrth 2016.

Adroddiad Ariannol Misol

1411 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Mawrth)

b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mawrth)

c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £97.52 (Mis Mawrth)

ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Mawrth)

d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mawrth)

dd) Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - TAW'r Peiriant Draeniad- £455.00

e) Star Forge – Gwaith yn y Parciau - £2601.00

f) Cyngor Sir Gar - Costau Toiledau'r Meinciau - £1359.74

ff) Clwb Pêl-droed Carwe - Trydan i'r Parc - £102.55

g) Cyngor Sir Gar - Lampau Hanner - £6.79

Cyfrifiadur

1412 Penderfynwyd prynu cyfrifiadur newydd hyd at gost o £600.00 at ddefnydd Swyddfa'r Cyngor.

Platiau i'r Cyngor

1413 Penderfynwyd prynu 10 o blatiau yn dangos logo'r Cyngor o Grochendy Gwili a chyflwyno un i Emyr John i ddangos ein gwerthfawrogiad o'i wasanaeth i'r Cyngor.

Cinio'r Cyngor

1414 Penderfynwyd cynnal Cinio'r Cyngor yn y Sgwâr a'r Cwmpawd, Pontiets ar 09/05/16.

Cyfarfod nesaf:- 9fed o Fai 2016 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol (Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....